**Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg**
**21 Mehefin 2023**
**Cofnodion**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Teitl** | **Sefydliad** |
| Y Cyng Lis Burnett (LB) | Arweinydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Marie Davies (MD) | Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH) | Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig | Cyngor Tref y Barri |
| Charles Janczewski (CJ) | Cadeirydd y BIP | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Judith Cole (JC) | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu | Llywodraeth Cymru |
| Fiona Kinghorn (FK) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Rachel Connor (RC) | Cyfarwyddwr Gweithredol | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg |
| Estella Enos (EE) | Dirprwy Bennaeth Y | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Caerdydd a'r Fro |
| Huw Jakeway (HJ) | Prif Swyddog Tân | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| David Letellier (DL) | Rheolwr Gweithredol | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mark Brace (MB) | Comisiynydd Cynorthwyol | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Tom Bowring (TB) | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Helen Moses (HM) | Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Andreas Pieris-Plumley (APP) | Intern Strategaeth a Phartneriaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| Nicola Sumner-Smith (NSS) | Arweinydd Tîm, Datblygu Cymunedol, Grantiau a Chronfeydd Allanol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Alec Shand (AS) | Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Arabella Calder (AC) | Uwch Swyddog Datblygu Cymunedol | Cyngor Bro Morgannwg |

| | | |
|---|---|---|
| David Bebb (DB) | Pennaeth Gwaith Di-dâl | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Fawrhydi |
| Robert Robbins (RR) | Rheolwr Gweithredol | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Fawrhydi |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Eirian Evans (EE - GPC) | Pennaeth Y | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Caerdydd a'r Fro |
| Suzanne Rankin (SR) | Prif Weithredwr | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Rob Thomas (RT) | Prif Weithredwr | Cyngor Bro Morgannwg |
| Mike Evans (ME) | Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Estelle Hitchon (EH) | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| Rhif | Eitem Agenda | Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Croesawodd a chyflwynodd MB bawb i gyfarfod y BGC. | |
| 2. | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>Gweler y rhestr lawn o ymddiheuriadau uchod. | |
| 3. | **Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 3 Mai 2023**<br><br>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir. | |
| 4. | **Adroddiad Blynyddol BGC y Fro 2012/23**<br>Adroddiad Blynyddol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2022-23<br><br>Cyflwynodd HM yr Adroddiad Blynyddol ac eglurodd sut mae'n canolbwyntio ar y flwyddyn ddiwethaf ond hefyd yn myfyrio ar 5 mlynedd diwethaf gwaith y BGC. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd enghreifftiau o waith sydd wedi symud ymlaen i fodloni pedair blaenoriaeth Cynllun Llesiant 2018-23, ac yn tynnu sylw at brosiectau sy'n datblygu'r amcanion llesiant. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn edrych ar gyfeiriad y BGC yn y dyfodol ac yn amlinellu camau i'w cymryd yn y Cynllun Llesiant newydd.<br><br>Ategodd APP sylwadau HM ynghylch tôn yr adroddiad sy'n ystyried gwaith y BGC dros y pum mlynedd diwethaf. Eglurodd APP fod yr adroddiad yn cynnwys chwe adran sy'n cynnwys amrywiaeth eang o waith y BGC dros y flwyddyn ddiwethaf a thros gyfnod 5 mlynedd Cynllun Llesiant 2018-23. Mae'r adroddiad yn manylu ar y pedair blaenoriaeth; y Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda, Mynd i'r Afael â | |

| | | |
|---|---|---|
| | Newid yn yr Hinsawdd, Gwerth yn y Fro, Gwella Ymgysylltiad. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at wyth astudiaeth achos sy'n dangos yr amrywiaeth o waith sy'n digwydd o fewn y BGC. Er enghraifft, mae Ei Llais Cymru yn arddangos y cynnwys ieuenctid sydd wedi digwydd gyda phobl ifanc yn arwain ymgyrch yn erbyn aflonyddu rhywiol. Mae Partneriaeth Bwyd y Fro yn pwysleisio'r gwaith sy'n digwydd o ran darpariaeth bwyd iach ac yn cysylltu â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae ymateb costau byw y BGC wedi'i ddisgrifio a manylwyd ar y defnydd o gyllid partneriaeth ychwanegol. Rhoddir y cefndir, yr hyn a wnaed a'i gyflawni, a chyfeiriad y gwaith yn y dyfodol i ddangos y cynnydd sy'n digwydd. Disgrifiodd APP sut mae'r adroddiad yn edrych ar y gwaith i'r dyfodol sydd wedi'i wreiddio yng Nghynllun Llesiant newydd 2023-28 ac mae'n darparu rhestr o gamau gweithredu blwyddyn un.<br><br>Canmolodd FK yr adroddiad ac awgrymodd y gellid gwneud gwaith i gynnwys cyfres o ystadegau dangosyddion perfformiad.<br><br>Llofnodwyd yr Adroddiad Blynyddol gan bartneriaid. | |
| **5.** | **Creu Lleoedd**<br><br>Eglurodd NSS fod creu lleoedd yn gweithio ar draws sectorau i ystyried datblygiad ardal yn y dyfodol a chyflwyno'r siarter creu lleoedd sy'n manylu ar chwe egwyddor creu lleoedd. Esboniodd NSS fod cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pedair tref ym Mro Morgannwg a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r ardaloedd hyn. Disgrifiodd NSS sut y bydd mapio cymunedol yn bwydo i mewn i'r cynllun creu lleoedd.<br><br>Eglurodd AS fod yr ymagwedd at greu lleoedd yn Llanilltud Fawr wedi cynnwys presenoldeb mewn digwyddiad a oedd yn casglu barn trigolion am yr ardal. Defnyddiwyd hyn i ddeall pethau cadarnhaol a'r hyn sy'n gweithio'n dda ond hefyd i nodi unrhyw ddiffygion. Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i fwrw ymlaen â'r datblygiad creu lleoedd. Cafwyd cefnogaeth dda hefyd gan y cyngor lleol i'r ymagwedd creu lleoedd.<br><br>Ategodd AC sylwadau AS am greu lleoedd yn yr ymagwedd at ddatblygiad y Bont-faen, ar ôl cynnal digwyddiad tebyg i ddeall barn trigolion am yr ardal. Esboniodd AC dair cydran creu lleoedd, gweithgaredd, ffurf, ystyr a hysbysodd y partneriaid am fore coffi grŵp ffocws y maer ym mis Gorffennaf a fydd yn clustnodi cyfleoedd a bylchau yn erbyn pob un o'r tair cydran.<br><br>Esboniodd NSS sut y gweithredir creu lleoedd gan ddefnyddio nifer o randdeiliaid ac y bydd rhanddeiliaid yn cael eu hannog i fwrw ymlaen â'u prosesau creu lleoedd eu hunain a bwydo hynny i'r cynllun. Mae hyn yn sicrhau nid dim ond y cyngor sy'n cymryd yr awenau ond eraill sydd yn y gymuned ac sy'n gweddu'n iawn i ddatblygu eu cymuned leol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd SH sut mae rhanddeiliaid masnachol fel perchnogion siopau yn cael eu cynnwys i symud i gymunedau creu lleoedd.<br><br>Esboniodd NSS fod gwaith gyda phartneriaid fel cydweithwyr yn Datblygu Economaidd yn digwydd i adnabod posibiliadau ac edrych ar fusnesau lleol.<br><br>Gofynnodd MB pa mor eang yw'r ymgynghoriad.<br><br>Esboniodd NSS fod matrics o bynciau trafod yn cael ei greu i fapio'r rhanddeiliaid ar draws themâu. Mae'r mapio hwn yn sicrhau y siaredir â’r holl randdeiliaid priodol ynghylch yr holl themâu priodol.<br><br>Amlygodd FK yr angen am alinio cynlluniau ar gyfer gwerth ychwanegol ac adnabod profiadau diwylliannol.<br><br>Eglurodd NSS mai cam cyntaf yr ymgynghoriad yw edrych ar alinio â'r cynlluniau presennol a sicrhau nad yw diwylliant a threftadaeth yn cael eu colli wrth ddatblygu.<br><br>Gofynnodd MB sut y gall y BGC gynorthwyo a helpu i alinio gwahanol agweddau ar greu lleoedd.<br><br>Esboniodd NSS ei bod yn ddefnyddiol i'r tîm gwneud lleoedd ddeall pa waith y mae'r BGC yn ei wneud ar y cyd ac fel partneriaid unigol.<br><br>Gofynnodd MD sut yr ydym yn cymryd rhan mewn ffordd fwy ystyrlon a sicrhau y cyrhaeddir y rhai hynny na chânt eu clywed yn aml.<br><br>Eglurodd AS bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pawb yn cyfranogi.<br><br>Awgrymodd MD gyfle i rannu rhestrau rhanddeiliaid rhwng partneriaid er mwyn adnabod yn well y grwpiau na chânt eu clywed yn aml. | **Pob un** |
| **6.** | **Adfywio Strategaeth y BIP**<br>Adfywio Ein Strategaeth (shapingourfuturewellbeing.com<br><br>Eglurodd MD fod y strategaeth ddrafft allan nawr ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, cydweithwyr a rhanddeiliaid. Crëwyd y drafft yn seiliedig ar adborth cychwynnol gan bobl ledled Caerdydd a'r Fro.<br><br>Mae'r BIP yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws sefydliadau addysg, cyhoeddus a gwirfoddol yn ogystal ag yn y diwydiant. Mae ffocws brwd i ddatblygu gwasanaethau yn y cyd-destun hwn, gan ddefnyddio arbenigedd partneriaid. Mae angen edrych ar gynhyrchu incwm ychwanegol i fuddsoddi mewn cyfleusterau a gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau eraill. Fel rhan o'r cam cyntaf o ymgysylltu, cyflwynwyd gwerthoedd yr BIP i randdeiliaid a'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn dal i | |

| | | |
|---|---|---|
| | fod yn berthnasol, derbyniodd y rhain gefnogaeth gref. Mae'r diben a'r weledigaeth ill dau wedi cael eu hailweithio yn sylweddol yn dilyn ymgynghoriad ag adborth yn awgrymu bod angen ymestyn y weledigaeth ond hefyd fod yn realistig.<br><br>Amlinellodd MD y pum blaenoriaeth strategol yn y strategaeth: *Rhoi ein pobl yn gyntaf* drwy gadw staff a chynnig hyfforddiant wrth gael diwylliant gweithio gonest, grymuso cydweithwyr, parchu amrywiaeth, a chydraddoldeb. *Darparu ansawdd rhagorol* drwy leihau'r bylchau presennol a chael y gorau allan o adnoddau. *Cyflawni yn y mannau iawn* y gofal priodol a datblygu gofal digidol tra'n blaenoriaethu adnoddau sy'n cael eu buddsoddi yn y mannau cywir. *Gweithio mewn partneriaethau* a gwybod yn glir pa bartneriaid y mae angen gweithio gyda nhw i ddarparu'r gwasanaethau gorau a'u bod yn parhau i fod yn gynaliadwy. *Gweithredu ar gyfer y dyfodol* Diogelu llesiant y dyfodol drwy gynllunio a gweithredu.<br><br>Dwedodd MD mai'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar y strategaeth yw 26 Mehefin.<br><br>Canmolodd TB y cydbwysedd a geir yn y strategaeth ddrafft ac awgrymodd gyfle i wella neu chwyddo'r cyfeiriadau iechyd cyhoeddus o fewn y strategaeth i gael y cydbwysedd rhwng trin pobl a chadw pobl yn iach. Gwerthfawrogwyd y cyfeiriadau at bobl hŷn ond awgrymwyd cryfhau llais pobl ifanc. Gofynnodd TB a oes cyfle i ddefnyddio'r dangosyddion o fewn y strategaeth mewn mannau eraill yng ngwaith BGC, a hefyd cyfle i gynnwys mesurau bodlonrwydd yn y strategaeth.<br><br>Canmolodd HJ y strategaeth a chydnabu'r ffocws ynghylch atal ac ymyrryd yn gynnar, gan awgrymu cyfle i rannu arbenigedd i weithio ar y cyd ar y materion hyn.<br><br>Adleisiodd FK sylwadau TB ac eglurodd fod yr arsylwadau hyn wedi'u nodi a bod gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys yr awgrymiadau hyn yn y strategaeth. | |
| **7**. | **Trosolwg Gwaith Di-dâl Cymru**<br><br>Esboniodd DB fod Gwaith Di-dâl yn ddedfryd gan y llysoedd a gellir ei wneud mewn lleoliadau unigol neu fel grwpiau dan oruchwyliaeth. Effeithiodd pandemig Covid-19 ar y rhaglen gan arwain at golli buddiolwyr; fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i adnewyddu'r cysylltiadau hyn. Mae tuedd i'r rhan fwyaf o bobl gwblhau eu dedfryd ar y penwythnosau i gyd-fynd â'u hymrwymiadau gwaith cyflogedig. Fel arfer, mae'r gwaith yn cael ei gwblhau yn eu cymuned leol fel y gallant weld y newid y maent yn ei greu ac mae opsiwn i ddatblygu sgiliau galwedigaethol yn dibynnu ar y gwaith. Gellir enwebu prosiectau gwaith i'r tîm a fydd yn eu hasesu ac a allant ddarparu'r llafur i gyflawni'r gwaith. Mae diogelwch pawb sy'n cymryd rhan yn hollbwysig ac mae popeth yn cael asesiad risg cyn dechrau ar brosiect. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddodd RR enghreifftiau o brosiectau gwaith di-dâl yn digwydd yn y Fro. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal a chadw ardaloedd awyr agored fel tiroedd yr eglwys yn Llandochau, a'r caeau chwarae yng Nghlwb Rygbi y Barri. Hefyd, bu prosiectau adfer dodrefn, gwaith ar ganolfan dreftadaeth arfordirol Southerndown a phrosiectau coginio mewn partneriaeth â'r banciau bwyd. Mynegodd RR y nod o ehangu o fewn y Fro gan estyn allan at bartneriaid i enwebu prosiectau.<br><br>Gwahoddodd LB y tîm Gwaith Di-dâl i siarad â'r tîm arweinyddiaeth strategol yn y Cyngor a thynnu sylw at bwysigrwydd edrych ar gyfleoedd ar gyfer gwerth ychwanegol a gweithio gyda'n gilydd.<br><br>Awgrymodd JC gysylltu'r tîm Gwaith Di-dâl â Llywodraeth Cymru ynghylch yr agenda bioamrywiaeth.<br><br>Cynigiodd FK gyrsiau achrededig hyfforddiant bwyd iach trwy ddietegwyr BIP ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn prosiectau coginio.<br><br>Roedd partneriaid yn gefnogol i'r gwaith ac yn cydnabod cyfleoedd y rhaglen a'r potensial i gysylltu â hyfforddiant ac achredu. | |
| **8.** | **Datblygu Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Rhaglen Lesiant yng Nghymru**<br><br>Eglurodd FK, mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ledled Cymru, fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynllunio cynnig ar gyfer gwobr gan y Sefydliad Iechyd. Byddai hyn yn ariannu dull systemau cenedlaethol i gyflawni amcanion sy'n ymwneud ag iechyd ac yn galluogi dysgu ar y cyd rhwng BGCau. Mae cyfleoedd i gael gwerth ychwanegol sy'n deillio o aliniad gwaith a pholisi ledled Cymru gydag adnoddau ychwanegol i fwrw ymlaen â gwaith y BGC. Dwedodd FK fod cais wedi'i gyflwyno.<br><br>Canmolodd LB y cynnig a mynegodd ddiddordeb yn natblygiad y gwaith hwn.<br><br>Holodd MB a allai fod lle i gefnogi cymunedau i allu cymryd y cyfrifoldeb i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br><br>Cydnabu FK fudd datblygiad cymunedol a'r natur hirdymor, gan awgrymu edrych yn y dyfodol ar y ffocws i gael yr ymagwedd aliniad systemau yn gywir. | |
| **9.** | **Blaenraglen Waith 2023**<br><br>Rhoddodd HM ddiweddariad ar yr amserlen ar gyfer y cyfarfod nesaf, sy'n cynnwys Adroddiad Blynyddol Symud Mwy Bwyta'n Dda, Ymhelaethu ar Atal, diweddariadau ar ddigartrefedd a chostau byw, yn ogystal ag adroddiad gan bartneriaeth natur leol ar fioamrywiaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ychwanegodd FK y byddai ei Hadroddiad Blynyddol nesaf fel Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth. | |
| **10.** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Dim materion eraill. | |
| **11.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf - 20 Medi 2023** | |